DYDD GWENER Y GROGLITH

ESEIA 52:12–53:12; SALM 22;
HEBREAID 10:16-25 [HEBREAID 4:14-16; 5:7-9];
IOAN 18:1–19:42

● **Gweddi agoriadol**

Dduw cariad,
mewn moment o dawelwch
cofiwn pam ein bod yma.
(Saib)
Dduw gras,
mewn moment o dawelwch
cofiwn y rhodd fwyaf i gyd.
(Saib)
Dduw cariad a gras,
yn ein hamser ynghyd
bydd y fendith a dderbyniwn heddiw.

● **Moliant**

Felly y carodd Duw y byd
fel y creodd ni ar ei ddelw,
i bartneru â'r cread
a'i gadw yn ein gofal.

Felly y carodd Duw y byd
fel yr achubodd ni o'n caethiwed,
a'n harwain drwy ein diffeithwch
i'r wlad a addawyd.

Felly y carodd Duw y byd,
fel y rhydd bopeth, agor ei galon,
teithio at y groes
ac agor ei freichiau yn llydan
i ni ymgasglu yn ddiogel o'u mewn.

● **Cyffes**
Dduw grasol, maddau i ni
pan fethwn ddeall
dyfnder y tristwch
oedd yn dy galon
wrth i'th bobl unwaith eto
wrthod yr un a'u gwnaeth.
(Saib)
Dduw grasol, maddau i ni
pan fethwn ddeall
dyfnder y cariad
a geisiodd ddwyn
plant gwrthryfel
yn ôl i freichiau cariadus
eu Tad.
(Saib)
Dduw grasol, maddau i ni
pan fethwn ddeall
dyfnder dy ras,
sy'n agor yn llydan
gatiau'r nefoedd i bawb
sy'n derbyn y rhodd a cherdded i mewn.
(Saib)

● Diolch

Dechreuodd y daith
gyda chroeso i'r arwr,
Haleliwia,
canghennau palmwydd,
tyrfa'n clapio,
glanhau'r deml.
Daeth i ben
gyda ffrind yn bradychu,
tyrfa'n gwawdio,
coron ddrain,
gwaed yn llifo,
gwrthod.

Am ddirgelwch
iachawdwriaeth,
a Gwaredwr
yn ymestyn ei freichiau
i groesawu,
rhown ddiolch i ti.